

Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg Cyngor Caerdydd

Dyddiad cyhoeddi: 17 Tachwedd 2020

Fersiwn 1.0

Cyhoeddi ar y wefan: <https://www.cardiff.gov.uk/effeithlonrwyddynni>

1) Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Caerdydd ar gyfer y rhaglen ECO: Help to Heat, Hydref 2018 - Mawrth 2022. Ei nod yw cefnogi'r aelwydydd yng Nghaerdydd sydd fwyaf tebygol o brofi tloidi tanwydd a'r rhai sy'n agored i effeithiau cartref oer.

Drwy Gymhwysedd Hyblyg ar gyfer ECO, gall awdurdodau lleol bennu eu meini prawf cymhwyso eu hunain i alluogi aelwydydd cymwys yn y sector preifat (perchnogion tai a thenantiaid rhent preifat) i elwa o gyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni domestig. Mae'r cyllid hwn wedi'i anelu at y preswylwyr sydd fwyaf tebygol o fod mewn tloidi tanwydd. Gall Cyflenwyr Ynni ddyrannu hyd at 25% o'u rhwymedigaeth lawn i fesurau sydd wedi'u cymhwyso drwy Gymhwysedd Hyblyg Awdurdodau Lleol ar gyfer ECO.

Dim ond gan YES Energy Solutions (ar gyfer prosiect Cronfa Cartrefi Cynnes Cymru Rhentu Doeth Cymru) a chwmnïau sydd wedi cael eu caffael gan Gyngor Caerdydd i alluogi cyllid ECO ar gyfer aelwydydd sector preifat y bydd y Datganiad o Fwriad hwn yn cael ei ddefnyddio.

Ni fydd y Cyngor ond yn llofnodi Datganiadau ar gyfer aelwydydd cymwys sydd wedi'u hatgyfeirio drwy ein partneriaid cyflenwi sydd wedi'u caffael i alluogi cyllid ECO fel y nodir uchod ac ni fydd yn gweithio gydag unrhyw drydydd partïon y tu allan i hyn.

Noder nad yw bodloni meini prawf Cymhwysedd Hyblyg Cynghorau ar gyfer ECO a chyhoeddi Datganiad gan Gyngor Caerdydd yn gwarantu gosod mesurau. Y Cyflenwr Ynni fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol.

2) Sut mae'r Cyngor yn bwriadu nodi aelwydydd cymwys

Ystyrir bod aelwydydd mewn perygl o dlodi tanwydd os penderfynir eu bod yn aelwyd incwm isel a'u bod yn byw mewn cartref cost uchel mewn perthynas â defnydd ynni (Incwm Isel / Cost Uchel) neu fod ganddynt gyflwr sy'n bodoli eisoes sy'n eu gwneud yn agored i effeithiau byw mewn cartref oer (Incwm Isel / Agored i Oerfel).

Bydd angen i aelwydydd fodloni meini prawf Cam 1 (Incwm Isel) **AC** un o'r meini prawf Cam 2 (Cost Uchel / Agored i Oerfel).

Cam	Meini Prawf Cymhwysedd
1) Incwm Isel	<p>Cyfansoddiad yr aelwyd</p> <p>1 Oedolyn £ 9,440</p> <p>ac 1 plentyn £ 12,383</p> <p>a 2 blentyn £ 15,225</p> <p>a 3 phlentyn £ 18,270</p> <p>a 4+ plentyn £ 21,315</p> <p>2 Oedolyn £ 15,428</p> <p>ac 1 plentyn £ 18,428</p> <p>a 2 blentyn £ 21,417</p> <p>a 3 phlentyn £ 24,462</p> <p>a 4+ plentyn £ 27,202</p>
	<p>*mae'r ffigurau uchod wedi cynyddu o gyfansoddiad Aelwydydd 2019 i ystyried chwyddiant o 1.50% yn 2020</p> <p>Incwm blynyddol aelwyd (ar ôl rhent neu forgais, a'r Dreth Gyngor) o £27,202 neu lai</p>
AC 1 o 2 faen prawf	
2a) Cost Uchel	Sgôr TPY eiddo o E, F neu G
2b) Agored i Oerfel	<p>Sgôr TPY eiddo o D a chyflwr iechyd sy'n cael ei waethygu gan oerfel:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Cyflwr anadlol cronig, neu b. Gyflwr cardiofasgwlaidd, neu c. Salwch cyhyrysgerbydol, neu d. Gyflwr iechyd meddwl
2c) Agored i Oerfel	<p>Sgôr TPY eiddo o D ac yn agored i niwed oherwydd oedran neu amgylchiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Dros 70 oed, neu b. Yn fenyw feichiog, neu c. Â phlant dibynnol o dan 5 oed

Yn y sector rhent preifat, bydd angen i ddeiliaid / landlordiaid yr eiddo ddangos bod ganddynt Denantiaeth Ddomestig ar waith. Diffinnir Tenantiaeth Ddomestig yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

3) Gweithredu ar ran awdurdod lleol arall

Nid yw Cyngor Caerdydd yn gweithredu ar ran awdurdod lleol arall.

4) Datganiad o fwriad ar y cyd

Nid yw Cyngor Caerdydd yn gweithio ar y cyd ag awdurdod lleol arall.

5) Llywodraethu

Bydd y swyddog isod yn gyfrifol am lofnodi Datganiadau ar ran Cyngor Caerdydd:

Enw: Elizabeth Lambert

Teitl swydd: Arweinydd Grŵp Datblygu Cynaliadwy

Ffôn: 029 2087 3228

E-bost: ELambert@caerdydd.gov.uk

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'u partneriaid cyflawni i nodi aelwydydd cymwys. Bydd partneriaid cyflawni yn ymgysylltu â phreswylwyr ac yn casglu'r dystiolaeth ofynnol i ddangos cymhwysedd, a ddarperir i'r Cyngor. Bydd partneriaid cyflawni hefyd yn cysylltu â Chyflenwyr Ynni ECO.

6) Atgyfeiriadau

Bydd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud drwy bartneriaid cyflenwi'r Cyngorau.

7) Monitro

Cyngor Caerdydd fydd yn cofnodi nifer yr aelwydydd y cysylltir â hwy ac sy'n gymwys am Gymhwysedd Hyblyg ECO ynghyd â nifer y mesurau Cymhwysedd Hyblyg a ariennir gan ECO a nifer y cartrefi a gaiff eu gwella.

8) Llofnod



Paul Orders

Prif Weithredwr – Cyngor Caerdydd